Mynd i'r ysbyty

canolfanbydgwaith

Rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau

Canllaw yn unig yw'r daflen hon ac nid yw'n cwmpasu pob amgylchiad. Rydym wedi ceisio sicrhau bod y wybodaeth yn y daflen hon yn gywir o fis Ebrill 2010.

Mae'n bosibl y bydd rhywfaint o'r wybodaeth wedi'i gorsymleiddio, neu'n dod yn llai cywir dros amser, er enghraifft, o ganlyniad i newidiadau i'r gyfraith.

Cynnwys

Mae mynd i'r ysbyty yn effeithio ar y budd-daliadau canlynol

Lwfans Gweini 4

Budd-daliadau profedigaeth 5

Lwfans Gofalwr 6

Lwfans Gweini Cyson 7

Lwfans Byw i'r Anabl 8

Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, Budd-dal Analluogrwydd neu Lwfans Anabledd Difrifol 10

Cymhorthdal Incwm 11

Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol 12

Lwfans Ceisio Gwaith 13

Credyd Pensiwn 14

Pensiwn y Wladwriaeth 16

Help arall y gallwch ei gael 17

Help gyda chostau tai 17

Help gyda chostau teithio i'r ysbyty 18

Partner

Byddwn yn eich trin fel cwpl os ydych yn byw gyda'ch gŵr, gwraig neu bartner sifil, neu os ydych yn byw gyda rhywun fel pe baent yn ŵr, gwraig neu'n bartner sifil i chi. Rydym yn galw'r person arall hwn yn bartner i chi.

Lwfans Gweini

Beth sy'n digwydd i'm Lwfans Gweini os byddaf yn mynd i'r ysbyty?

Fel arfer ni chaiff Lwfans Gweini ei dalu ar ôl i chi fod yn yr ysbyty am 28 diwrnod, oni bai eich bod yn glaf preifat sy'n talu am eich llety a'ch triniaeth heb gymorth gan y GIG.

Os byddwch yn mynd i mewn neu'n dod allan o'r ysbyty, rhaid i chi ddweud wrth y Gwasanaeth Anabledd a Gofalwyr ar unwaith.

Os ydych chi neu'ch gofalwr yn cael Lwfans Gofalwr, gallai hyn hefyd ddod i ben (gweler tudalen 6).

Os daw eich Lwfans Gweini i ben, efallai na fyddwch chi na'ch partner yn parhau i gael arian ychwanegol mewn budd-daliadau eraill, fel:

- Cymhorthdal Incwm
- Credyd Pensiwn
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n ymwneud ag incwm
- Budd-dal Tai, neu
- Budd-dal Treth Cyngor.

Sut y gallaf gael rhagor o wybodaeth?

Ymholiadau am fudd-daliadau (pobl anabl neu ofalwyr).

Ffôn: 0800 882 200

Ffôn testun: 0800 243 355

Ddydd Llun i ddydd Gwener 8.30am i 6.30pm, dydd Sadwrn 9am i 1pm.

Gwefan: www.direct.gov.uk/cy

I gael gwybodaeth am gostau galwadau, gweler tudalen 19.

Budd-daliadau profedigaeth

Beth fydd yn digwydd os byddaf i neu fy mhlant yn mynd i'r ysbyty?

Dywedwch wrth y swyddfa sy'n talu eich budd-dal.

Ni chaiff eich budd-daliadau profedigaeth eu heffeithio.

Sut y gallaf gael rhagor o wybodaeth?

Canolfan Byd Gwaith

I gysylltu â'r Ganolfan Byd Gwaith, ewch i www.direct.gov.uk/cy neu gwelwch y cofnod yn eich llyfr ffôn.

Lwfans Gofalwr

Beth fydd yn digwydd os byddaf i neu'r unigolyn rwy'n gofalu amdanynt yn mynd i'r ysbyty?

Os ydych yn cael Lwfans Gofalwr, gallai'r arian hwnnw ddod i ben cyn gynted ag y byddwch yn mynd i'r ysbyty.

Gallai eich Lwfans Gofalwr ddod i ben cyn gynted ag y mae'r unigolyn anabl rydych yn gofalu amdano yn mynd i'r ysbyty.

Os cewch arian ychwanegol gyda'ch Lwfans Gofalwr dros rywun sy'n gofalu am eich plant, gallai'r arian ychwanegol hwnnw ddod i ben ar unwaith os bydd yr unigolyn hwnnw yn mynd i'r ysbyty.

Fodd bynnag, mewn rhai achosion gallwch barhau i gael Lwfans Gofalwr am hyd at 12 wythnos.

Os byddwch yn mynd i mewn neu'n dod allan o'r ysbyty, rhaid i chi ddweud wrth y Gwasanaeth Anabledd a Gofalwyr ar unwaith.

Os daw eich Lwfans Gofalwr i ben, efallai na fyddwch chi na'ch partner yn parhau i gael arian ychwanegol mewn budd-daliadau eraill, fel:

- Cymhorthdal Incwm
- Credyd Pensiwn
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n ymwneud ag incwm
- Budd-dal Tai, neu
- Budd-dal Treth Cyngor.

Sut y gallaf gael rhagor o wybodaeth?

Ymholiadau am fudd-daliadau (pobl anabl neu ofalwyr).

Ffôn: 0800 882 200

Ffôn testun: 0800 243 355

Ddydd Llun i ddydd Gwener 8.30am i 6.30pm, ddydd Sadwrn 9am i 1pm.

Gwefan: www.direct.gov.uk/cy

Lwfans Gweini Cyson

Os oes angen gofal arnoch bob dydd oherwydd bod gennych anabledd, ac rydych yn hawlio Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol neu Bensiwn Anabledd Rhyfel, gallwch hawlio Lwfans Gweini Cyson.

Os ydych chi neu'ch partner yn cael Lwfans Gweini Cyson, fel arfer daw i ben ar ôl i chi neu nhw fod yn yr ysbyty am bedair wythnos.

Sut y gallaf gael rhagor o wybodaeth?

Ar gyfer Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol

I gysylltu â'r Ganolfan Byd Gwaith, ewch i www.direct.gov.uk/cy neu gwelwch y cofnod yn eich llyfr ffôn.

Ar gyfer Pensiynau Anabledd Rhyfel

Asiantaeth Personél y Lluoedd Arfog a Chyn-filwyr

Ffôn: 0800 169 2277

Ffôn testun: 0800 169 3458

Dydd Llun i ddydd Iau 8.15am i 5.15pm, dydd Gwener 8.15am i 4.30pm.

Partner

Byddwn yn eich trin fel cwpl os ydych yn byw gyda'ch gŵr, gwraig neu bartner sifil, neu os ydych yn byw gyda rhywun fel pe baent yn ŵr, gwraig neu'n bartner sifil i chi. Rydym yn galw'r person arall hwn yn bartner i chi.

I gael gwybodaeth am gostau galwadau, gweler tudalen 19.

Lwfans Byw i’r Anabl

Beth fydd yn digwydd i'm Lwfans Byw i’r Anabl os byddaf yn mynd i'r ysbyty?

Fel arfer, daw rhannau gofal a symudedd y Lwfans Byw i’r Anabl i ben ar ôl i chi fod yn yr ysbyty am 28 diwrnod, oni bai eich bod yn glaf preifat sy'n talu am eich llety a'ch triniaeth heb gymorth gan y GIG.

Os caiff ychydig neu'r cyfan o'ch Lwfans Byw i’r Anabl ei dalu i'r cynllun Motability, gallech barhau i gael y rhan symudedd hon nes bod y cytundeb Motability yn dod i ben.

Os byddwch yn mynd i mewn neu'n dod allan o'r ysbyty, rhaid i chi ddweud wrth y Gwasanaeth Anabledd a Gofalwyr ar unwaith.

Os ydych chi neu'ch gofalwr yn cael Lwfans Gofalwr, gallai hyn hefyd ddod i ben (gweler tudalen 6).

Os daw eich Lwfans Byw i’r Anabl i ben, efallai na fyddwch chi na'ch partner yn parhau i gael arian ychwanegol mewn budd-daliadau eraill, fel:

- Cymhorthdal Incwm
- Credyd Pensiwn
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n ymwneud ag incwm
- Budd-dal Tai, neu
- Budd-dal Treth Cyngor.

Partner

Byddwn yn eich trin fel cwpl os ydych yn byw gyda'ch gŵr, gwraig neu bartner sifil, neu os ydych yn byw gyda rhywun fel pe baent yn ŵr, gwraig neu'n bartner sifil i chi. Rydym yn galw'r person arall hwn yn bartner i chi.

Beth fydd yn digwydd i'm Lwfans Byw i'r Anabl os bydd fy mhlentyn yn mynd i'r ysbyty?

Os caiff eich plentyn Lwfans Byw i'r Anabl a'i fod o dan 16 oed, fel arfer daw i ben ar ôl iddynt fod yn yr ysbyty am dros 12 wythnos.

Os bydd eich plentyn yn mynd i mewn neu allan o'r ysbyty, rhaid i chi ddweud wrth y Gwasanaeth Anabledd a Gofalwyr ar unwaith.

Sut y gallaf gael rhagor o wybodaeth?

Ymholiadau am fudd-daliadau (pobl anabl neu ofalwyr).

Ffôn: 0800 882 200

Ffôn testun: 0800 243 355

Ddydd Llun i ddydd Gwener 8.30am i 6.30pm, ddydd Sadwrn 9am i 1pm.

Gwefan: www.direct.gov.uk/cy

I gael gwybodaeth am gostau galwadau, gweler tudalen 19.

Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, Budd-dal Analluogrwydd neu Lwfans Anabledd Difrifol

Os ydych yn mynd i'r ysbyty, dylai eich budd-dal aros yr un fath am hyd at 52 wythnos ar yr amod eich bod yn bodloni'r amodau ar gyfer ei gael.

Ar ôl 52 wythnos, efallai y caiff eich Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ei effeithio. Nid yw hyn yn berthnasol os ydych yn cael Budd-dal Analluogrwydd neu Lwfans Anabledd Difrifol oni bai eich bod hefyd yn cael ychwanegiadau penodol i'ch budd-dal.

Sut y gallaf gael rhagor o wybodaeth?

Canolfan Byd Gwaith

I gysylltu â'r Ganolfan Byd Gwaith, ewch i www.direct.gov.uk/cy neu gwelwch y cofnod yn eich llyfr ffôn.

Partner

Byddwn yn eich trin fel cwpl os ydych yn byw gyda'ch gŵr, gwraig neu bartner sifil, neu os ydych yn byw gyda rhywun fel pe baent yn ŵr, gwraig neu'n bartner sifil i chi. Rydym yn galw'r person arall hwn yn bartner i chi.

Cymhorthdal Incwm

Beth fydd yn digwydd i Gymhorthdal Incwm (neu rywun rwy'n hawlio drostynt) os byddaf yn mynd i'r ysbyty?

Os ydych chi, eich partner neu blentyn rydych yn hawlio budd-daliad drostynt yn mynd i'r ysbyty, dylai eich Cymhorthdal Incwm aros yr un fath am hyd at 52 wythnos ar yr amod eich bod yn bodloni'r amodau ar gyfer ei gael.

Os ydych yn cael budd-daliadau eraill sy'n dod i ben yn gynt oherwydd eich bod chi (neu rywun rydych yn hawlio drostynt) yn mynd i'r ysbyty, gallai hyn effeithio ar eich Cymhorthdal Incwm. Os byddwch yn gwybod bod yn rhaid i chi aros yn yr ysbyty am fwy o amser, ceisiwch gyngor gan y Ganolfan Byd Gwaith.

Os oes gennych bartner a'ch bod yn cael Cymhorthdal Incwm, a bod un (neu'r ddau) ohonoch wedi bod yn yr ysbyty am dros 52 wythnos, efallai y bydd yn rhaid i'r ddau ohonoch wneud cais ar wahân, fel dau unigolyn sengl.

Sut y gallaf gael rhagor o wybodaeth?

Canolfan Byd Gwaith

I gysylltu â'r Ganolfan Byd Gwaith, ewch i www.direct.gov.uk/cy neu gwelwch y cofnod yn eich llyfr ffôn.

Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol

Rwy'n cael Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol - beth os bydd fy amgylchiadau'n newid?

Nid oes angen dweud wrthym os byddwch yn mynd i'r ysbyty am na fydd hyn yn effeithio ar eich Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol.

Os ydych yn cael Lwfans Gweini Cyson a'ch bod yn mynd i'r ysbyty, rhaid i chi ddweud wrthym cyn gynted a'ch bod wedi bod yn yr ysbyty am bedair wythnos.

Sut y gallaf gael rhagor o wybodaeth?

Canolfan Byd Gwaith

I gysylltu â'r Ganolfan Byd Gwaith, ewch i www.direct.gov.uk/cy neu gwelwch y cofnod yn eich llyfr ffôn.

Partner

Byddwn yn eich trin fel cwpl os ydych yn byw gyda'ch gŵr, gwraig neu bartner sifil, neu os ydych yn byw gyda rhywun fel pe baent yn ŵr, gwraig neu'n bartner sifil i chi. Rydym yn galw'r person arall hwn yn bartner i chi.

Lwfans Ceisio Gwaith

Beth sy'n digwydd i Lwfans Ceisio Gwaith os byddaf i (neu rywun rwy'n hawlio ar eu cyfer) yn mynd i'r ysbyty?

Os byddwch yn mynd i'r ysbyty, efallai y gallwch barhau i hawlio Lwfans Ceisio Gwaith am hyd at bythefnos. Ar ôl yr amser hwnnw rhaid i chi hawlio Lwfans Cyflogaeth a Chymorth neu Gymhorthdal Incwm am na allwch fodloni'r amodau i gael Lwfans Ceisio Gwaith.

Os yw eich partner neu blentyn rydych yn hawlio budd-dal drostynt yn mynd i'r ysbyty, dylai eich Lwfans Ceisio Gwaith aros yr un fath am hyd at 52 wythnos ar yr amod eich bod yn dal i fodloni'r amodau ar gyfer ei gael. Os bydd y cyfnod yn yr ysbyty yn para dros 52 wythnos, gofynnwch i ni am gyngor. Os bydd eich partner neu blentyn yn yr ysbyty am dros 52 wythnos, gallai swm y budd-dal a gewch leihau.

Sut y gallaf gael rhagor o wybodaeth?

Canolfan Byd Gwaith

I gysylltu â'r Ganolfan Byd Gwaith, ewch i www.direct.gov.uk/cy neu gwelwch y cofnod yn eich llyfr ffôn.

Credyd Pensiwn

How does being in hospital affect my Pension Credit?

Os ydych yn sengl

Fel arfer bydd eich Credyd Pensiwn yn aros yr un fath oni bai eich bod yn cael symiau ychwanegol ar gyfer:

- anabledd difrifol (ni fyddwch yn parhau i gael yr arian ychwanegol hwn unwaith y daw eich Lwfans Gweini a'ch Lwfans Byw i'r Anabl i ben, fel arfer ar ôl 28 diwrnod yn yr ysbyty), neu
- bod yn ofalwr (ni fyddwch yn parhau i gael yr arian ychwanegol hwn wyth wythnos ar ôl i'ch Lwfans Gofalwr ddod i ben).

Os ydych chi a'ch partner yn cael eich trin fel cwpl at ddibenion Credyd Pensiwn

Os bydd un ohonoch yn mynd i'r ysbyty, fel arfer bydd eich Credyd Pensiwn yn aros yr un fath am y 52 wythnos gyntaf. Gallai leihau:

- os cewch swm ychwanegol oherwydd anabledd difrifol neu os ydych yn ofalwr (daw hyn i ben pen ddaw'r Lwfans Gweini neu'r Lwfans Byw i'r Anabl neu'r Lwfans Gofalwr i ben), neu
- os nad yw'n debygol y bydd un ohonoch yn mynd adref ar ôl gadael yr ysbyty.

Partner

Byddwn yn eich trin fel cwpl os ydych yn byw gyda'ch gŵr, gwraig neu bartner sifil, neu os ydych yn byw gyda rhywun fel pe baent yn ŵr, gwraig neu'n bartner sifil i chi. Rydym yn galw'r person arall hwn yn bartner i chi.

Os yw eich partner yn yr ysbyty ac nid ydych yn disgwyl iddynt allu dod yn ôl adref, byddwn yn cyfrifo eich Credyd Pensiwn fel pe baech yn sengl. Os mai eich partner oedd yn cael y Credyd Pensiwn, bydd angen i chi wneud cais am Gredyd Pensiwn eich hun.

Os ydych chi a'ch partner yn yr ysbyty, fel arfer bydd eich Credyd Pensiwn yn aros yr un fath am y 52 wythnos gyntaf. Gallai leihau:

- os caiff un ohonoch swm ychwanegol am anabledd difrifol neu fod yn ofalwr (daw hyn i ben pan ddaw'r Lwfans Gweini neu Lwfans Byw i'r Anabl neu'r Lwfans Gofalwr i ben), neu
- os nad ydych yn parhau i gael eich trin fel cwpl bellach.

Ar ôl i chi a'ch partner fod yn yr ysbyty am 52 wythnos, byddwn yn eich trin fel pobl sengl, oni bai bod y ddau ohonoch yn disgwyl dychwelyd adref yn fuan ar ôl hynny. Os taw eich partner oedd yn cael y Credyd Pensiwn, bydd angen i chi wneud cais am Gredyd Pensiwn eich hun.

Beth yw ystyr ysbyty (o ran Credyd Pensiwn)?

Ystyrir cartrefi gofal y GIG fel ysbytai wrth i ni gyfrifo Credyd Pensiwn. Er enghraifft, os ydych mewn ysbyty am dair wythnos a chartref nyrsio'r GIG am bum wythnos, ystyrir eich bod wedi treulio wyth wythnos mewn ysbyty.

Sut y gallaf gael rhagor o wybodaeth?

Credyd Pensiwn

Ffôn: 0845 606 0275

Ffôn testun: 0845 606 0295

Ddydd Llun i ddydd Gwener 8am i 8pm.

Gwefan: www.direct.gov.uk/credydpensiwn

Pensiwn y Wladwriaeth

Sut y mae mynd i'r ysbyty yn effeithio ar Bensiwn y Wladwriaeth

Nid yw eich Pensiwn y Wladwriaeth wythnosol yn cael ei effeithio os byddwch yn yr ysbyty, hyd yn oed os arhoswch yn yr ysbyty am fwy na 52 wythnos. Gallwch hefyd barhau i ennill Pensiwn y Wladwriaeth ychwanegol neu gyfandaliad os arhoswch yn yr ysbyty tra'n oedi cyn gwneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth.

Ond os cewch swm ychwanegol wedi'i dalu gyda'ch Pensiwn y Wladwriaeth i'ch gŵr, gwraig, neu rywun sy'n gofalu am eich plant, mae angen i chi ddweud wrthym pan fyddwch yn mynd i mewn ac allan o'r ysbyty.

Sut y gallaf gael rhagor o wybodaeth?

Y Gwasanaeth Pensiwn

Ffôn: 0845 606 0275

Ffôn testun: 0845 606 0295

Ddydd Llun i ddydd Gwener 8am i 8pm.

Gwefan: www.direct.gov.uk/pensiynau

Partner

Byddwn yn eich trin fel cwpl os ydych yn byw gyda'ch gŵr, gwraig neu bartner sifil, neu os ydych yn byw gyda rhywun fel pe baent yn ŵr, gwraig neu'n bartner sifil i chi. Rydym yn galw'r person arall hwn yn bartner i chi.

I gael gwybodaeth am gostau galwadau, gweler tudalen 19.

Help arall y gallwch ei gael

Help gyda chostau tai

Gallai eich awdurdod lleol eich helpu i dalu eich rhent neu dreth gyngor os ydych yn cael:

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n ymwneud ag incwm, neu
- Credyd Pensiwn.

Cysylltwch â'ch awdurdod lleol am ragor o gyngor a gwybodaeth.

Os cewch help gyda'ch costau tai drwy un o'r budd-daliadau uchod, a'ch bod yn disgwyl aros yn yr ysbyty am dros 52 wythnos, dylech ddweud wrth y Gwasanaeth Pensiwn, y Ganolfan Byd Gwaith neu'ch awdurdod lleol ar unwaith. Efallai y gall eich partner, os oes gennych un, wneud cais am y cymorth hwn gyda chostau tai yn eich lle chi.

Os ydych yn cael Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n ymwneud ag incwm, cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith i gael rhagor o wybodaeth am gyngor gyda chostau tai. Os ydych yn cael Credyd Pensiwn, cysylltwch â'r Gwasanaeth Pensiwn.

I gael gwybodaeth am gostau galwadau, gweler tudalen 19.

Help gyda chostau teithio i'r ysbyty

Os ydych yn cael triniaeth a ddarperir gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG), gallech gael help gan y GIG gyda'ch costau teithio:

- pan fyddwch yn mynd i mewn ac yn dod allan o'r ysbyty, a
- pan fyddwch yn mynd i mewn ac yn dod allan o'r ysbyty fel claf allanol neu glaf dydd i weld ymgynghorydd.

Gallech gael help os ydych yn cael:

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n gysylltiedig ag incwm, neu
- y rhan warantedig o Gredyd Pensiwn.

Gallech hefyd gael help drwy Gynllun Incwm Isel y GIG.

Sut y gallaf gael rhagor o wybodaeth?

I gael gwybod mwy am help gyda chostau iechyd gan y GIG, ewch i'r wefan ar gyfer yr ardal lle rydych yn byw:

- Lloegr www.dh.gov.uk/helpwithhealthcosts
- Cymru www.nhsdirect.wales.nhs.uk/small/cy/hafan/gwybodaethiechyd
- Yr Alban www.scotland.gov.uk/publications

Costau galwadau

Roedd y costau yn gywir ar y dyddiad sydd ar gefn y daflen hon.

Mae galwadau i rifau 0800 am ddim o linellau daear BT ond efallai y bydd yn rhaid i chi dalu os byddwch yn defnyddio cwmni ffôn arall, ffôn symudol, neu os byddwch yn ffonio o dramor.

Ni ddylai cost galwadau i rifau 0845 o linellau daear BT fod yn fwy na 6c y funud gyda thâl o 10c ar gyfer gwneud yr alwad. Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu mwy os byddwch yn defnyddio cwmni ffôn arall, ffôn symudol, neu os byddwch yn ffonio o dramor.

Gall galwadau o ffonau symudol gostio hyd at 40c y funud, felly gofynnwch i'ch darparwr gwasanaeth am gost galwadau.

Ffonau Testun

Mae'r rhifau ffôn testun a ddarparwn yn rhai ar gyfer pobl sy'n ei chael hi'n anodd llefaru neu glywed yn glir. Os nad oes gennych ffôn testun, efallai bydd gan ambell lyfrgell neu ganolfan cyngor ar bopeth un. Nid yw ffonau testun yn derbyn negeseuon testun o ffonau symudol.

Mae Directgov yn rhoi gwybodaeth gan adrannau llywodraeth y DU am bob math o bynciau. I gael gwybod mwy am ba fudd-daliadau y gallech fod yn gymwys i'w cael, ewch i
www.direct.gov.uk/cynghoryddbudd-daliadau

Mae'r Ganolfan Byd Gwaith yn ymroddedig i weithredu egwyddorion cyfle cyfartal yn ei rhaglenni a'i gwasanaethau.

Cynhyrchwyd gan y Ganolfan Byd Gwaith,
rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau

ISBN 978-1-84763-211-1
DWP1029W | f2.0 (Ebrill 2010) | v2.00 (April 2010)